

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - Nos Fawrth, 20fed o Fedi 2016

Presennol: Cyng. Gwilym O. Jones (Cadeirydd)
Cyng. Gordon Owen
Cyng. Einir Thomas
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Dyfed Williams

Ymddiheuriadau: Cyng. Gwynfor Lloyd Jones

2. Datganiad o ddiddordeb - dim

3. Cofnodion cyfarfod 19eg o Orffennaf - Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Gordon Owen, eilio Cyng. Beryl Salisbury.)

4. Materion yn codi o'r cofnodion

1. Meinciau - Roedd Mr Rowlands wedi cwblhau'r gwaith ar y meinciau ar wahân i'r un yn Yr Hen Ysgol a allai fod y tu hwnt i drwsio. Cytunodd Cyng. Dyfed Williams i fynd yno i gael golwg arni.
2. Cae chwarae - Roedd G. L. Jones Playgrounds Ltd i fod i adrodd yn ôl ar yr offer chwarae.
3. Ffens wrth Menai Handy Foods - Roedd CSYM wedi cael gwybod pwy oedd y perchennog trwy'r Gofrestrfa Tir, ond wedi methu dod o hyd iddyn nhw. Fodd bynnag, 'roeddent am gael gwared â'r weiren bigog gan ei bod yn berygl i'r cyhoedd a chodi tâl ar y perchennog pan fydd cyfeiriad ganddynt.
4. Llwybrau - Adroddwyd bod rhai o'r llwybrau troed eisoes wedi cael eu torri, gofynnwyd i'r clerc i atgoffa GMS am yr angen i roi gwybod i'r Cyngor cyn gwneud y gwaith
5. Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned - Mynychodd Cyng. Dyfed Williams y cyfarfod ar 21.7.2016 a rhoddwyd sylw arbennig i'r materion ailgylchu wrth gyflwyno'r cofnodion.

Nodwyd mai 58% oedd targed ailgylchu Ynys Môn yn 2015/16 a bod hyn wedi cael ei gyflawni (59.5%). Fodd bynnag, roedd angen codi ymwybyddiaeth yn gymunedol y gallai methiant i gyrraedd targedau statudol hyn arwain at ddirwyon mawr gan Gynulliad Cymru

6. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.

5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref

Ceisiadau Cynllunio

32C199 - Heather Bank, Llanfair yn Neubwll - cais llawn i ddymchwel yr annedd presennol a chodi annedd newydd a modurdy yn ei le. - dim gwrthwynebiad.

27C106D/SCR - Barn sgrinio am Welliannau Priffyrdd A5025 Ar-lein rhwng y Fali a'r Ardal Ddatblygu Newydd Wylfa - nodwyd.

6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn

1. Cod Ymddygiad - Nodwyd bod yna ofyniad gorfodol i gyhoeddi'r ffaith bod y Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu cod ymddygiad.

Arwyddwyd:.....(Cadeirydd)

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

2. Grantiau - Hysbysiad o grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd - nodwyd

7. Materion Ariannol

Yn y banc ar 20.9.2016 Cyfrif Cyfredol £7,407.75, Cyfrif Cadw £3,920.6

Taliadau i'w gwneud:

Cyflog y Clerc (Gorff. ac Awst)	£361.66	HMRC (TWE Mehefin)	£90.41
GMS Ground Maintenance (0971)	£91.20	Eisteddfod Môn	£1,000
F Rowlands	£80.00		

Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Einir Thomas, eilio Cyng. Gordon Owen.)

8. **Cyfrifon 2015/2016** - 'Roedd y ffurflen derfynol ar ei ffordd yn ôl gan yr Archwilwyr allanol (BDO). Yn y cyfamser fe anfonwyd copi e-bost o'r ffurflen a'r adroddiad i'r clerch ar gyfer cyfarfod y Cyngor. Nodwyd eu bod wedi cadarnhad eu bwriadu i gyhoeddi tystysgrif ddiamod am 2015/16.

Fe drafodwyd yr adroddiad a chytunwyd i:

1. ddiwygio'r gofrestr asedau yn ôl y gofyn ac ail-gymeradwyo'r cyfrifon cyn gynted ag y daw'r ddogfen wreiddiol i law
2. ac i fabwysiadu'r argymhellion anstatudol oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

9. **Rheoliadau Ariannol Newydd Mehefin 2016** - Trafodwyd fersiwn drafft, byddai'r clerch yn awr yn cynhyrchu'r ddogfen derfynol i'w ch cymeradwyo.

10. **Gohebiaeth Eraill - fe nodwyd y canlynol:**

1. Cyngor i Gynghorau Cymuned a Thref ar Weithio gyda Phobl Ifanc
2. Ombwdsmon (The Ombudsman's Casebook Issue 25)
3. Y newyddion diweddaraf gan Gomisiynydd Pobl Hyn Cymru
4. Ymgynghoriad y Pwyllgor Llifogydd ac Erydiad Arfordirol -
5. Sesiynau Hyfforddi - Medi - Rhagfyr 2016
6. Eich Cymuned Eich Dewis - Gronfa Gymunedol sydd wedi ei sefydlu i helpu cymunedau Gogledd Cymru ymladd trosedd. Mae hon wedi ei hariannu'n rhannol drwy'r Ddeddf Elw Troseddau gan ddefnyddio arian a atafaelwyd gan droseddwyr, ac arian gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
7. Cyflwyniad PINS Outreach - Gwybodaeth, y cyflwyniadau a wnaed gan yr Arolygaeth Gynllunio (7/9/2016) yn amlinellu eu cyfrifoldebau mewn perthynas â phrosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol (NSIP) h.y. prosiectau mawr fel Wylfa Newydd.
8. Ymateb i'r cynnig ar uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru
9. Holiadur Asedau o Werth Cymuned - byddai'r clerch yn delio a hwn.

11. Unrhyw fater arall - dim

12. Cyfarfod nesaf 18fed o Hydref 2016.

Arwyddwyd:.....(Cadeirydd)